# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Practis Deintyddol Paul John,

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad yr arolygiad: 11 Mai 2017

Dyddiad cyhoeddi: 14 Awst 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**


ISBN Digidol 978-1-4734-9601-9

© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 7

Ansawdd profiad y claf ........ 8

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 12

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 18

4. Beth sydd nesaf? ........ 20

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 21

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 22

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 23

Atodiad C – Cynllun gwella ar unwaith ........ 24

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Mynegi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisïau, safonau ac arferion.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Healthcare Inspectorate Wales (HIW) completed an announced inspection of Paul John Dental Practice, 60a Oxford Street, Mountain Ash, CF45 3HB within Cwm Taf University Health Board on 11 May 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad) ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Paul John yn bodloni'r safonau gofynnol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymrwymedig.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn fodlon iawn â'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu.
- Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth hwn yn cael ei reoli'n dda, gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis.
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar, ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel.
- Roedd digon o gyfleusterau clinigol ar gael, ac roeddent yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda.
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol.
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio sganiau pelydr-X yn ddiogel.

Rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae'n rhaid i restr brisiau ar gyfer cleifion preifat gael ei harddangos.
- Mae angen tystysgrif weirio trydanol ar gyfnodau o bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad ac mae'n rhaid anfon copi at AGIC.
- Mae'n rhaid i ddeintyddion sicrhau bod canfyddiadau penodol yr adroddiad sy'n ymwneud â dadheintio yn derbyn sylw.
- Mae'n rhaid i ddeintyddion sicrhau bod canfyddiadau penodol yr adroddiad o ran cadw cofnodion yn derbyn sylw.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae practis deintyddol Paul John yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Aberpennar a'r ardaloedd cyfagos. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, chwe nyrs ddeintyddol (gan gynnwys nyrsys deintyddol rhan amser, y mae un ohonynt yn gweithio fel derbynnydd hefyd), dau therapydd, dau dderbynnydd, ac un rheolwr practis llawn amser.

Mae’r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer y GIG a chanran fechan o rai preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod y practis hwn yn gweithio'n galed i ddarparu profiad o ansawdd uchel ac yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol ar gyfer ei gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiadur cleifion yn gadarnhaol iawn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Yn gyfan gwbl, gwnaethom dderbyn cyfanswm o 30 holiadur wedi'u cwblhau. Cafodd y rhan fwyaf o'r holiaduron eu cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers dros ddwy flynedd. Dywedodd yr holl gleifion a oedd wedi cwblhau holiadur wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn yn y practis. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Gwasanaeth ardderchog gan bob aelod o staff"*
>
> *"Mae'r staff bob amser yn gynorthwyol, llawn gwybodaeth, yn gefnogol, effeithlon, proffesiynol a chwrtais"*
>
> *"Dw i'n cael profiad cadarnhaol bob amser wrth ymweld â'r practis hwn"*

### Cadw'n iach

Gwnaeth y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur ddweud wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â hwy ynglŷn â sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Mae gwybodaeth hybu iechyd yn cynorthwyo cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd amrywiaeth o bosteri a thaflenni gwybodaeth yn cael eu harddangos ar yr

hysbysfwrdd, a oedd yn rhoi ystod o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol.

## Gofal ag urddas

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis a bod tîm y practis wedi rhoi croeso iddo. Gwelsom y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd y staff yn ei ddefnyddio wrth ymdrin â chleifion.

Roedd lle ar gael i staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth i gleifion

Roedd bron yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur o'r farn eu bod yn cyfrannu cymaint ag yr oeddent yn dymuno at unrhyw benderfyniadau a wneir o ran eu triniaeth. Dywedodd mwyafrif y cleifion a wnaeth lenwi holiadur wrthym eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir ynglŷn â'u triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys y dewisiadau o ran triniaethau oedd ar gael a chostau. Fodd bynnag, dywedodd nifer fechan o gleifion a wnaeth gwblhau holiadur nad oeddent yn gwybod sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrif.

Mae gan y practis ei daflenni gwybodaeth ei hun i gleifion, o'r enw "Practis deintyddol Aberpennar yn gweithio gyda'n gilydd", a ffotograffau o'r staff a'u henwau yn yr ardal aros, a oedd yn rhoi gwybodaeth i gleifion ynglŷn â'r practis. Gwelsom fod manylion y deintyddion sy'n ymarfer ac oriau agor y ddeintyddfa yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad. Roedd cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel.

Gwelsom fod gwybodaeth am brisiau triniaeth y GIG ar gael yn y man aros, er mwyn i gleifion gael eu hysbysu am gostau. Fodd bynnag, nid oedd rhestr brisiau wedi'i harddangos ar gyfer cleifion preifat.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen arddangos rhestr brisiau ar gyfer cleifion preifat mewn man amlwg a hygyrch, er mwyn dangos y costau perthnasol i gleifion.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd nifer fach o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn ystyried eu bod yn siarad Cymraeg, a gallent ond siarad weithiau â staff yn eu hiaith ddewisol yn y practis. Dywedodd yr holl gleifion nad oeddent yn siarad Cymraeg a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser. Gwelsom dystiolaeth bod anghenion y Gymraeg yn cael eu hystyried gan fod holiaduron cleifion y practis ei hun ar gael yn Gymraeg. Rydym yn argymell i'r practis ystyried a fyddai modd o gynnig unrhyw wybodaeth arall yn ddwyieithog i gleifion.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol bob amser.  Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth gael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dim ond nifer fach o gleifion a gwblhaodd holiadur a ddywedodd na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol brys ganddynt. Gwelsom fod manylion y rhif ffôn cyswllt brys yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd ymatebion o holiaduron cleifion yn dangos inni fod yr holl gleifion yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o gyngor am eu triniaeth unigol ac roeddent yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn a bob amser yn teimlo eu bod yn derbyn croeso cynnes.

Gwnaeth y cleifion a wnaeth gwblhau holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Mae mynediad gwastad at un ystafell driniaeth ar y llawr daear, sy'n hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Mae'r toiled i gleifion wedi'i leoli ar y llawr cyntaf. Mae toiled cyhoeddus gyda mynediad i bobl anabl ar gael yn syth ar draws y ffordd o'r practis.

## Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym na fyddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis. Roedd manylion ynghylch y weithdrefn gwyno ar gael ar wal yr ystafell aros. Mae copïau o'r gweithdrefnau cwyno yn hygyrch, ar ddesg y dderbynfa. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth hon yn hawdd pe bai angen.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol y GIG. Roedd y weithdrefn gwyno yn cydymffurfio â'r trefniadau ynghylch nodi pryderon am driniaeth y GIG (a adnabyddir fel 'Gweithio i Wella').[1] Roedd gwybodaeth am weithdrefnau cwyno cleifion preifat yn cael eu harddangos yn y man aros hefyd, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.[2]

Dim ond ychydig o gwynion gan gleifion a oedd wedi cael eu derbyn dros y blynyddoedd ac roedd ffeil gwynion gyda thystiolaeth i ddangos bod y rheiny a dderbyniwyd wedi derbyn sylw yn unol â'r polisïau cwynion. Mae rheolwr y practis wedi rhoi lòg pryderon ar waith i gofnodi unrhyw bryderon anffurfiol yn ganolog er mwyn caniatáu i unrhyw themâu cyffredin gael eu nodi.

Gwnaeth y cleifion a gwblhaodd holiadur gadarnhau eu bod yn cael eu holi ynglŷn â'u barn ar y practis deintyddol. Roedd gan y practis ddull sefydlog ar gyfer ceisio adborth gan gleifion. Gwelsom dystiolaeth bod arolygon bodlonrwydd cleifion wedi'u dosbarthu er mwyn casglu adborth ac awgrymiadau gan gleifion. Gwnaethom gynghori y dylai'r amlder mewn perthynas â holi am adborth gan gleifion fod yn gyfnodol ac, yn dilyn archwiliad o'r wybodaeth a dderbyniwyd, gallai'r practis arddangos dadansoddiad o'r adborth yn y man aros er mwyn dangos i gleifion ei fod yn gweithredu ar adborth a'i fod yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn y practis.

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=932&pid=50738

[2] https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd y cyfleusterau clinigol wedi cael eu cyfarparu'n dda ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i warchod iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd diogel. Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i warchod iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Roedd y practis wedi ei gynnal yn dda yn ôl pob golwg ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Teimlodd pob un o'r cleifion a wnaeth gwblhau holiadur fod y practis yn lân iawn yn eu barn nhw. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Ni welsom dystiolaeth bod tystysgrif gwifrau trydan bob pum mlynedd ar gael ar gyfer y safle.

Roedd un tŷ bach deuryw at ddefnydd cleifion ac un tŷ bach ar gyfer staff. Roedd arwyddion clir ar gyfer y ddau gyfleuster ac roeddent i'w gweld yn lân gyda biniau gwastraff glanweithiol wedi'u gosod.

Roedd asesiadau risg ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a thaflenni data diogelwch yn cael eu cadw ar gyfer sylweddau yn ogystal ag asesiadau risg. Roedd sylweddau COSHH yn cael eu storio'n ddiogel ar ddiwrnod yr ymweliad arolygu.

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd cynwysyddion offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd diffoddwyr tân ar gael ac roeddent wedi'u gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd contract cynnal a chadw ar waith ar gyfer offer diogelwch tân, ac roedd arwyddion tân ac asesiadau risg yn amlwg. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen tystysgrif weirio trydanol ar gyfnodau o bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad ac mae'n rhaid anfon copi at AGIC.

## Atal a rheoli heintiau

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol. Mae hyn oherwydd inni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.
- Roedd cyfarpar diogelu personol megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael ei ddefnyddio.
- Sinc benodol i olchi dwylo.
- Roedd yr offer a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg.
- Roedd offerynnau'n cael eu storio a'u cludo mewn modd priodol, ac roedd dyddiad ar eu pecynnau i ddangos erbyn pryd roedd yn rhaid eu defnyddio.

Roedd polisi dadheintio ar waith a gwelsom fod staff yn llofnodi ac yn dyddio i ddangos eu bod wedi ystyried y prif bolisïau. Canfuom fod statws gwirio brechiadau imiwneiddio ar gyfer aelodau staff yn gyfredol.

Er bod cofnod dadheintio yn cael ei gadw, i gofnodi prosesau, roedd y practis yn defnyddio stribedi profi ar gyfer yr awtoclaf. Rydym yn argymell bod prawf rheoli awtomatig â llaw yn cael ei gynnal, a dylid cynnal cofnod o'r profion hyn mewn llyfr lòg awtoclaf pwrpasol, a fydd yn cynnwys yr holl ofynion profi beunyddiol ac wythnosol. Dylai'r gwaith o lanhau offerynnau â llaw gael ei ddilysu a'i gofnodi hefyd.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05,[3] ac roedd y staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant diweddaru ym maes dadheintio bob pum mlynedd. Dywedodd y prif ddeintydd ei fod yn bwriadu prynu cypyrddau newydd ar gyfer yr ystafelloedd triniaeth. Roedd y cypyrddau yn addas ar y diwrnod, gydag ond ychydig o draul.

Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellir bod prawf rheoli awtomatig â llaw yn cael ei gynnal a'i gofnodi. Yn ogystal, mae'n rhaid cofnodi paramedrau cylched ar gyfer pob cylchred a'u gwirio o leiaf bob wythnos naill ai drwy argraffiadau neu lawrlwythiadau digidol.

Dylid cynnal llyfr cofnodion ar wahân er mwyn dilysu'r broses glanhau cyfarpar â llaw.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion ac roedd y rhain yn cael eu harddangos yn yr holl fannau perthnasol.  Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol. Roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael eu cadw’n ddiogel, ac roeddent ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu/cwympo) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r cyfarpar a'r cyffuriau brys i sicrhau bod eu

[3] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

dyddiadau dod i ben yn gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio. Roedd pob aelod o staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant cyfredol mewn dadebru cardio-pwlmonaidd ac roedd gweithiwr cymorth cyntaf dynodedig a oedd wedi'i hyfforddi ar gael.

### Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn llesiant a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu a allai fod mewn perygl. Mae hyn oherwydd bod polisïau amddiffyn priodol ar waith, a bod hyfforddiant diogelu'n cael ei ddarparu ar gyfer staff perthnasol.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn mewn gwirionedd. Roedd systemau ar waith er mwyn sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar unrhyw aelodau newydd o'r staff cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd gwiriadau diogelu gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer deintyddion yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn y ddeintyddfa a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom nodi bod y ddeintyddfa wedi'i llunio a'i threfnu i helpu'r tîm i weithio yn effeithlon ac roedd i'w gweld yn lân ac mewn cyflwr da.

Gwelsom fod yr amgylchedd wedi cael ei gynllunio a'i drefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Gwnaethom drafod â'r prif ddeintydd y broblem o ran cael mynediad at y cyfleusterau pelydr-X gan fod y rhain yn yr ystafell driniaeth ar y llawr cyntaf yn unig. Gwnaeth y prif ddeintydd gadarnhau eu bod yn ystyried cyfleuster pelydr-X newydd yn yr ystafell driniaeth ar y llawr daear.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriant pelydr-X wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd i helpu i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Canfuom fod staff a oedd yn cymryd rhan yn y gwaith o dynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol

Cyffredinol[4] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn cynnal archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedodd y prif ddeintydd fod y practis wedi bod yn rhan o archwiliadau CAPRO gyda Deoniaeth Cymru yn y gorffennol.[5] Yn ogystal, nododd y prif ddeintydd fod prosesau adolygu ansawdd cymheiriaid ysbeidiol wedi cael eu cynnal gyda deintyddfeydd eraill a bod hwn yn faes y gallent ystyried ei ailsefydlu yn rheolaidd.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Gwnaethom drafod â'r prif ddeintydd a fyddai system mynediad bysellbad i'r ystafell staff ar ben y grisiau yn fuddiol er mwyn rhwystro mynediad at yr ardal hon ymhellach nag y mae ar hyn o bryd a bydd hyn yn cael ei drefnu. Roedd yr holl ffeiliau electronig yn cael eu cadw yn rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel a chynnil. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion ac roedd y rhain yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella'r meysydd canlynol:

---

[4] https://www.gov.uk/government/publications/the-ionising-radiation-medical-exposure-regulations-2000

[5] https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/carro

- Mae angen cofnodi tystiolaeth o gydsyniad gwybodus parhaus yn fwy cyson
- Mae angen i'r rhesymau dros gyfnodau ail-alw gael eu cofnodi'n fwy cyson
- Mae’n rhaid i hanesion meddygol gael eu cofnodi a’u llofnodi'n gyson ar ddechrau archwiliad
- Mae angen i amlder radiograffau (bitewing) gael ei ystyried yn unol â'r canllawiau
- Mae angen i ysmygu, cymeriant alcohol, a sgrinio ar gyfer canser y geg gael eu cofnodi'n gyson yn ystod pob archwiliad

Trafodwyd y canfyddiadau yn fanwl gyda'r deintyddion a gwnaethom gynghori, a dod i gytundeb, y byddent yn gweithredu rhaglen adolygu gan gymheiriaid yn y maes hwn, er mwyn gwella ansawdd y cofnodion a gadwyd.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae’n rhaid i ddeintyddion sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau penodol yn yr adroddiad sy'n ymwneud â chadw cofnodion ac mae'n rhaid iddynt wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddyn nhw yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd y practis yn eiddo i'r prif ddeintydd, a oedd hefyd yn ei reoli, gydag un deintydd arall a thîm staff cyfeillgar a sefydlog. Roedd rheolwr practis yno er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod ystod o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch staff y practis, a'u cydweithwyr. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn cael cyfleoedd i fynd i hyfforddiant perthnasol.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Practis Deintyddol Paul John yn eiddo i'r prif ddeintydd, a chaiff ei gefnogi gan un deintydd arall a thîm practis ehangach. Mae rheolwr practis yn gweithio yno er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd. Pan wnaethom nodi meysydd i'w gwella, gwnaeth y prif ddeintydd a rheolwr y practis arddangos ymrwymiad i fynd i'r afael â'r rhain yn brydlon.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi gan bob un o aelodau tîm y practis. Canfuom fod y staff yn glir o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da ymhlith tîm y practis. Gwelsom gofnodion cyfarfodydd practis a gynhaliwyd yn rheolaidd, ac roedd y cofnodion hyn yn cael eu darparu ar gyfer pob aelod o'r staff a'u storio mewn ffeiliau personél unigol.

Roedd arlwy o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn meysydd y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn eu hargymell yn fawr iawn.

Roedd gan y practis dîm staff cyson a sefydlog, a chafodd gwaith tîm da ei adrodd a'i weld ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi derbyn arfarniad ar eu perfformiad o fewn y flwyddyn ddiwethaf ac roedd cynlluniau datblygu personol wedi'u llunio o ganlyniad i'r arfarniadau hyn.

Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi'u cofrestru i ymarfer gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith ganddynt.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hunain a chleifion rhag heintiau.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC wedi'u harddangos mewn lle amlwg, yn unol â’r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

# 4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon yn ystod ein harolygiad sydd angen sylw ar unwaith, ac sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon sydd angen sylw ar unwaith mewn perthynas â diogelwch cleifion, lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made ahttp://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïïoneiddio 1999http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/contents/made, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol..

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

### Gwasanaeth: Practis Deintyddol Paul John

### Dyddiad yr arolygiad: 11 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dim materion sicrwydd ar unwaith | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella ar unwaith

### Gwasanaeth: Practis Deintyddol Paul John

### Dyddiad yr arolygiad: 11 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae angen arddangos rhestr brisiau ar gyfer cleifion preifat mewn man amlwg a hygyrch, er mwyn dangos y costau perthnasol i gleifion. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol<br>2.4.1 | Mae rhestr brisiau ar gyfer cleifion preifat yn cael ei llunio a'i fframio i'w harddangos. | P S John | I'w harddangos erbyn 10/07/2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae tystysgrif weirio trydanol ar gyfnodau o bob pum mlynedd yn ofynnol ar gyfer yr adeilad a dylid anfon copi at AGIC. | Safonau Iechyd a Gofal 2.1<br>Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989 | Tystysgrif weirio i'w threfnu – cysylltwyd â'r trydanwr.<br>Copi wedi'i anfon at AGIC. | P S John | 31/07/2017 |
| Dylid defnyddio llyfr cofnodion dadheintio er mwyn cynnal cofnodion o'r peiriant awtoclaf. | Safonau Iechyd a Gofal 2.4<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (4) a (6)<br>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 | Mae llyfrau cofnodion dadheintio ar gyfer pob peiriant awtoclaf wedi eu harchebu a byddant yn cael eu defnyddio wedi iddynt gyrraedd – yn dilyn cyfarfod nesaf y practis. | P S John | 17/07/2017 |
| Argymhellir bod prawf rheoli awtomatig â llaw yn | Safonau | Mae profion rheoli â llaw yn cael eu | P S John | 17/07/2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| cael ei gynnal a'i gofnodi. Yn ogystal, mae'n rhaid cofnodi paramedrau cylched ar gyfer pob cylchred a'u gwirio o leiaf bob wythnos drwy argraffiadau neu lawrlwythiadau digidol. | Iechyd a Gofal 2.4<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (4) a (6)<br>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 | cynnal ac mae paramedrau cylched wythnosol yn cael eu gwirio gan gofnodwyr data. | | |
| Dylid cynnal llyfr cofnodion ar wahân er mwyn dilysu'r broses o lanhau â llaw. | Safonau Iechyd a Gofal 2.4<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (4) a (6)<br>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru | Llyfr cofnodion wedi'i archebu ar gyfer glanhau â llaw.<br>I'w gweithredu yn unol â llyfrau cofnodion y peiriant awtoclaf. | P S John | 17/07/2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 01-05 | | | |
| Mae’n rhaid i ddeintyddion sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau penodol yn yr adroddiad sy'n ymwneud â chadw cofnodion ac mae'n rhaid iddynt wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddyn nhw yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. | Safonau Iechyd a Gofal 3.3, 3.5, 4.2<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>Safon 4 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol | Mae archwiliad cadw cofnodion wedi'i gynnal yn barod ac mae diwygiadau wedi’u gwneud er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau. | P S John | Cwblhawyd 27/05/2017 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dim | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras): Paul John**

**Swydd: Prif Ddeintydd**

**Dyddiad: 30/06/17**